# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2015

Amser: 09.00 - 11.03

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3284

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Alun Ffred Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC) |
| Tystion: | Simon Dean, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Peter Higson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies. Dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ei rhan.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Adroddiad i Uwchgynhadledd Fach Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Mai 2015)**

## 3 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Simon Dean, Prif Weithredwr Dros Dro a Dr Peter Higson, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel rhan o'r ymchwiliad i lywodraethu byrddau iechyd.

3.2 Cytunodd Simon Dean i anfon rhagor o wybodaeth am:

- Cydleoli ar draws ardal y Bwrdd mewn perthynas â gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.
- Meysydd penodol a nodwyd ynglŷn â gallu'r tîm anweithredol a sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu gwella hyn
- Ffigurau cyfredol sy'n dangos presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd
- Yn dilyn y cyfarfod o'r Bwrdd sydd ar ddod, nodyn ar y penderfyniad a wnaed i gydlynu'r strwythur pwyllgorau presennol

- Cyfanswm costau'r cynghorwyr annibynnol a benodwyd i gynorthwyo'r Bwrdd hyd yma a gwerthusiad o'u defnydd
- Y cynnydd mewn gwasanaethau mamolaeth a ddarperir yn Ysbyty'r Countess of Chester
- Y diweddaraf am gynigion y Bwrdd ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Cadarnhad ynghylch a gafodd Adroddiad Holden ei rannu â Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Sut y mae'r Bwrdd wedi gwella ei weithdrefn trin cwynion a sut mae'n tracio cwynion ar ôl iddynt gyrraedd y system gan gynnwys cwynion hir sefydlog ac a fydd y rhain wedi'u cwblhau cyn diwedd mis Mawrth 2016
- Beth yw'r broses o fewn y Bwrdd Iechyd ynghylch trin adroddiadau CIC

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.